# CO22117 - Heol Atlas – Heol Beda - Groesfan Bwrdd Arafu

## ***Disgrifiad o Gynnig y Cynllun***

Mae'r cyngor yn rhoi gwybod i breswylwyr am gynlluniau i wneud newidiadau i'r briffordd ar Heol Atlas ger y gyffordd ag Heol Beda. Codwyd pryderon ynghylch cyflymder cerbydau a diogelwch cerddwyr yma. Mewn ymateb i hyn, mae swyddogion y Cyngor wedi ymchwilio i opsiynau er mwyn gwneud gwelliannau a fydd yn helpu i greu amgylchedd priffordd sy'n fwy diogel.

Y prif broblemau diogelwch ar y ffordd a nodwyd oedd cyflymder cerbydau a diogelwch cerddwyr.

Mae'r cynllun hwn felly wedi'i ddatblygu i wneud y canlynol:

- Lleihau cyflymder cerbydau
- Creu croesfan dan reolaeth i gerddwyr


Bydd y mesurau'n creu amgylchedd mwy diogel i gerddwyr, yn benodol i ddefnyddwyr agored i niwed a disgyblion ysgol, a bydd yn gwella hygyrchedd yr ardal gymunedol, y siopau a'r gwasanaethau bysus lleol.

Mae cyllid wedi ei sicrhau ar gyfer y cynllun hwn gan Gronfa Llwybrau Diogel yn y Gymuned Llywodraeth Cymru.

## **Rhagor o Wybodaeth am fesurau rheoli traffig**

Croesfan Sebra â Bwrdd. ***Croesfan sebra*** sy'n cynnwys bwrdd arafu, neu sydd ar ***gyffordd fwrdd,*** yn rhan o fesurau ehangach i arafu traffig neu ar ei ben ei hun.

Cyffordd Fwrdd. Mae cyffordd fwrdd yn debyg i dwmpath ffordd. Dyrchefir y gyffordd gyfan i greu platfform, sy'n lleihau cyflymder cerbydau. Mae darparu cyffordd fwrdd yn creu cyffordd ddiogelach drwy arafu'r holl gerbydau sy'n agosáu at y gyffordd gan felly gynnig allanfa ddiogelach o bob rhan o'r gyffordd.





COPYRIGHT OF CARDIFF COUNCIL.
ALL RIGHTS RESERVED.


DRAWING CAN BE SCALED FOR PLANNING APPLICATION PURPOSES ONLY.


© Crown copyright and database rights (2011) Ordnance Survey 100023376.
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata (2011) Arolwg Ordnans 100023376.


CARDIFF
CAERDYDD

Project

Title

Checked

Path

Drawn

Project Number

Drawing Number

Scale

Date